

## Uned 6

### Clefydau Milheintiol

#### Taflen Wybodaeth

Clefydau yw milheintiau sy'n cael eu trosglwyddo'n naturiol rhwng anifeiliaid, yn cynnwys adar a bodau dynol.

Gelwir rhai o'r clefydau hyn yn 'hysbysadwy' h.y. rhaid hysbysu asiantaethau'r Llywodraeth eu bod wedi digwydd, fel y gallant ddilyn yr achos e.e. un bacteriwm o'r math yw E. Coli 0157.

Gall clefydau milheintiol achosi amrywiaeth o symptomau, o symptomau tebyg i ffliw, llid y croen a hyd yn oed marwolaeth.

Gellir dosbarthu'r clefydau i 3 prif gategori:

- Bacteriol
- Parasitig
- Unrhyw bathogen arall e.e. firws, ffwng neu brotoso.

#### 1. Cyfryngau Bacteriol

- Campylobacter
- Brwselosis
- E. coli
- E coli 0157
- Leptosbirosis
- Listeriosis
- Pasteurellosis
- Salmonellosis (Salmonela)
- Streptococws *suis* (llid yr ymennydd)
- Clamydoffila sitai (erthylid)
- *Mycobacteriwm bovis* - TB
- Boreliosis- Clefyd Lyme

#### 2. Cyfryngau Parasitig

- Ecinococosis – Hydatid
- Teniasis - Llyngyren Ruban
- Tocsocariasis
- Tricinosis

#### 3. Pathogenau eraill

- Orff - firws
- Tarwden - ffwng
- Cryptosporidiwm - protoso
- Tocsoplasmosis - protoso
- Clefyd Q - rickettsia

#### Mesurau Ataliol Personol i Osgoi Clefydau Milheintiol

- Golchi dwylo ar ôl gweithio gydag anifeiliaid neu dail anifail

- Dylid gwisgo menig wrth wyna, bwrw llo neu ddelio â ffoetysau erthylid
- Dylai merched beichiog osgoi mamogion sy'n erthylu wrth wyna
- Dylid rhoi powdwr rhag llyngyr i gathod a chŵn yn rheolaidd
- Wrth baratoi bwyd, mae glanweithdra'n bwysig iawn
- Dylai'r holl anifeiliaid fferm sy'n dioddef o glefydau milheintiol gael eu hynysu a'u trin gan bobl yn gwisgo dillad amddiffynnol llawn.